**Adolygiad o'r cytundeb rhwng Partneriaeth Penllyn a Chyngor Sir Gwynedd**
**Cefndir**

Yn 2009 sefydlwyd Partneriaeth Penllyn er mwyn galluogi gwell cydweithio ar ran y 5 cyngor plwy sef Llanycil, Llangywer, Llandderfel, Llanuwchllyn ac Y Bala.Y nod oedd;

1. Darparu gwasanaethau,
2. Bod yn llais i Benllyn
3. Presenoldeb y byddai pobol Penllyn yn gallu ei adnabod.

Yn y 90'au newidwyd y rheolau, gan roi rhyddid i'r cynghorau plwy, gael rhai darpariaethau yn nol i'w gofal nhw, ac yn 2009 gwnaed "Cytundeb ar gyfer dirprwyo swyddogaeth gan Gyngor Gwynedd i Bartneriaeth Penllyn".

Roedd dau ran i'r gwaith yma, gwaith adweithiol, a gwaith Uned Weithredol Bwrdeistrefol (UWB)

1. Cyllidebau bychan sydd yn mynd yn uniongyrchol i Bartneriaeth Penllyn ar gyfer y gwaith 'adweithiol', cyfrifoldeb Partneriaeth Penllyn yw defnyddio'r arian yma at ddibenion cynnal a chadw'r asedau. Yn 2015/16 roedd yr arian yma yn £1230 ac wedi ei rannu rhwng gwaith ar y caeau chwarae, tiroedd agored, toiledau a'r dodrefn stryd.
2. Cyllidebau ar gyfer cyflawni'r gwasanaethau ble mae'r taliadau yn mynd i'r UWB neu gwmni lleol. Mae Partneriaeth Penllyn yn derbyn yr arian yma yn eu cyfrif dwywaith y flwyddyn.

Mae'r cytundeb yma yn trosglwyddo'r cyfrifoldebau i Bartneriaeth Penllyn tuag at gostau cynnal a chadw'r asedau, tra bod yr ased ei hun yn aros ym mherchnogaeth y Cyngor.

Fel rhan o'r cytundeb yma cytunodd Partneriaeth Penllyn ymgymeryd y darnau canlynol o waith fel y rhestrir yn "Atodiad A" o'r cytundeb yn 2009.

**Gwaith Adweithiol**

1. 6 cae Chwarae; Y Grin a Blaenddol yn Y Bala, Gwern Gwalia Glan yr Afon, Maes y Pandy Llanuwchllyn, Tai'n Rhos Parc a Chae Gwyn Rhyduchaf
2. Tiroedd agored; Y Lawnt Y Bala
3. Toiledau Y Plase & Y Grin Bala

4. Dodrefn Stryd – 8 mainc yn y Bala & 1 yn Glan yr Afon

**Gwaith UWB;**

1. Torri glaswellt- mewn 6 lle; Y Grin & Blaenddol Bala, Gwern Gwalia GlanyrAfon, Maes y Pandy Llanuwchllyn & Tain Rhos Parc.
2. Torri glaswellt Tiroedd Agored- Y Grin Bala
3. Cynnal Hawliau Tramwy- ar gyfer plwy, Llanycil, Llandderfel, Llanuwchllyn, Llangywer & Tref y Bala.
4. Glanhau a chynnal Toiledau cyhoeddus- Y Plase & Y Grin yn Y Bala. Mae Atodiad A- Rhestr Eiddo a Manylebau Gwasanaeth yn enwi toiledau yn Llanuwchllyn, LLandderfel a Heol Arennig yn y Bala, ond o drafod hyn gyda Phartneriaeth Penllyn, nid yw'r3 toiled yma yn rhan o'i cytundeb nhw.

**Cynnal Hawliau Tramwy**- Ers cychwyn y cytundeb yn 2009 mae'r gwaith cynnal clirio tramwy wedi cael ei ymgymeryd gan gontractwyr lleol. Felly mae Partneriaeth Penllyn yn derbyn yr arian gan y Cyngor Sir, ac yn ei ddefnyddio i dalu am y gwasanaeth yn lleol.

**Glanhau a chynnal toiledau cyhoeddus**. Yn 2009 yn nol Partneriaeth Penllyn y bwriad oedd i'r cytundeb yma gael ei roddi i gwmni lleol, ond ar y pryd roedd yn haws cael Y Cyngor Sir i ymgymeryd ar gwaith, ac ers hynny maent yn flynyddol yn anfonebu am y gwaith cynnal a glanhau.

Nid oes gan Bartneriaeth Penllyn unrhyw syniad o'r oriau a ymgymerwyd i weithredu'r cytundeb, gan nad oes dadansoddiad o'r costau ar yr anfoneb, ond yn hytrach un pris- "Gwaith Cynnal /gwaith ar/gwaith glanhau Toiledau".

Y sefyllfa bresennol ydi bod Partneriaeth Penllyn yn awyddus i edrych os fyddai'r sector breifat yn gallu ymgymeryd ar gwaith, ond cyn gallu gwneud hynny mae yn rhaid cael oriau glanhau, a gwell syniad o gyfrifoldebau cynnal a chadw, a chostau rhedeg yr adeiladau yma.

**Torri glaswellt Caeau Chwarae & Tir Agored**- Mae hyn yn cynnwys gwaith torri gwair, strimio & lladd chwyn. Ar hyn o bryd mae'r gwaith yma yn cael ei gwblhau gan y Cyngor Sir a'r gytundeb flynyddol. Mae'r anfoneb flynyddol yn cynnwys rhestr o waith a gyflawnir ar gyfer y 6 darn o dir fel a ganlyn;

Blaenddol- £769.43
Cae Gwyn- £220.78
Maes y Pandy- £171.92
Gwern Gwalia- £30.28
Tain Rhos- £422.52
Y Grin & Lawnt y Bala- £1838.47

Mae’r gwaith yn cael ei gwblhau bob pythefnos, ac yn cychwyn yn niwedd Mawrth (wythnos 12) ac yn cael ei orffen yn ganol Mis Medi (wythnos 38) gyda gwaith ychwanegol o ladd chwyn, ymylu cwrb a llwybrau yn cael ei chwblhau yn niwedd Hydref mewn 4 lleoliad.
Cyfanswm anfoneb Cyngor Sir Gwynedd am y gwaith yma yn 2015 oedd £3453.40 & TAW- £4144.08
Er mwyn gallu gwneud adolygiad o’r cytundeb yma, mae’n rhaid cael mwy o wybodaeth am y safleoedd, yn cynnwys mapiau, a maint y gwaith.
Yn 2015/16 derbyniwyd £29,373.40 gan Gyngor Gwynedd, roedd hwn yn cynnwys £1230 o arian adweithiol. Derbyniwyd hefyd ad-daliad TAW o £6263.68 yn gneud cyfanswm incwm am y flwyddyn o £35,637.08 . Roedd y costau am y flwyddyn yn £32,716.08. Mae hyn yn gadael Partneriaeth Penllyn gydag elw blynyddol o’r cytundeb o £2921.

**Dodrefn Stryd- 8 mainc y Y Bala a 1 yn Glan yr Afon** yn cael ei chynnal gan yr arian adweithiol oedd yn £1230 yn 2015/16

**Canfyddiadau**

**Glanhau & Cynnal a chadw Toiledau Y Grin & Plase yn y Bala**
O gysylltu gyda’r Cyngor, daeth y wybodaeth isod i law, sydd yn rhoi dadansoddiad mwy manwl o’r costau, mae'r costau yma yn siliedig ar gyfartaledd o’r blynyddoedd diwethaf

| Costau | Plase | Y Grin |
|---|---|---|
| Cost Cynnal a Chadw | £584.89 | £3516.56 |
| Cost Glanhau | £6,574.75 | £7517.75 |
| Cost Trydan | £295.26 | £422.68 |
| Cost Trethi | £0.00 | £3470.40 |
| Cost Dwr | £655.87 | £1,000.22 |

Cyfanswm £8110.77
£15,927.61
Mae Cyngor Gwynedd yn derbyn cyfraniad tuag at doiledau Y Grin gan Asiantaeth Cefnffyrdd o oddeutu £4,778 yn flynyddol.
Felly roedd costau rhedeg, glanhau a chynnal a chadw'r toiledau yn £24,038.38 y flwyddyn.

Mae'r ddau Dy Bach cyhoeddus yn Y Bala yn cael ei glanhau 14 awr yn ystod cyfnod yr Haf, a 7 awr yn y Gaeaf. Y person yma sydd hefyd yn gyfrifol am agor a cau y toiledau yn ddyddiol (oriau agor 8yb tan 6yp). Gan gymeryd bod hyn yn cael ei rannu yn 6 mis yr un;
28 haf- @ 26 wythnos yn gneud cyfanswm o 728 awr
14 gaeaf @ 26 wythnos yn gneud cyfanswm o 364 awr
Cyfanswm 1092 awr y flwyddyn
Mae'r toiled yn y Grin gyda 4 ciwbicl Merched, ond dim ond 2 ar agor i'r cyhoedd, Gyda'r dynion gyda 3 wrinal a 2 giwbicl ond dim ond 1 ar agor.
Mae toiled Y Plase gyda 2 ciwbicl mereched, gyda'r dynion gyda 3 "urinal" a 1 cwibicl.
Dros gyfnod ysgrifennu fy adroddiad, bum yn y toiledau yma dros gyfnod o ddwy wythnos. Roedd ei cyflwr ymhell o fod yn lan, gyda dim sôn am lanhau yn digwydd weithiau dros gyfnod o 3 diwrnod, Mae cyflwr y toiledau yn enwedig yn Y Grin hefyd angen sylw.
O edrych ar y posibiliadau o ddod ar gwaith o dan adain Partneriaeth Penllyn, efallai y byddai modd gwneud arbedion o fewn y costau glanhau:
Mae'r gost flynyddol yn £14,092.50-
Tybiwn fod costau defnyddiau yn £1000 y flwyddyn sydd yn £2.74 y diwrnod
Costau cyfredol y glanhawyr;
£13092.50 wedi ei rannu gyda 1092 awr- yn rhoi cost oddeutu £11.98 yr awr i'r gweithwyr presennol. Yn cynnwys yswiriant, treth ayb.
Os byddai modd ffeindio is-gontractwr -Glanhau am £10 yr awr, byddai modd gneud arbedion o ychydig dros £2000 y flwyddyn.

O siarad ymhellach gyda Chyngor Gwynedd ar y mater yma, daeth yn glir os byddai Partneriaeth Penllyn yn cario mlaen gyda hyn y byddai oblygiadau Tupi ynghylch cyflogaeth yn dod i rym, byddai hyn yn rhoi golwg arall ar bethau a byddai yn annhebygol y byddai'r bartneriaeth eisiau cymeryd y baich yma.

Yn ogystal a hyn byddai pryderon fyddai maint y gost cynnal a chadw dros y blynyddoedd nesaf, gan gysidro bod gwahaniaeth gwariant ar y ddau adeilad uchod o gwmpas £3000. Yn anffodus o gysylltu gyda'r Cyngor i gael dadansoddiad pellach o'r costau yma, nid ydi'r wybodaeth yma ar gael.
O ran y trethi, ar hyn o bryd mae posib i gwmnïau cymunedol sydd yn masnachu fel cwmni dielw, neud cais i'r cyngor am ryddhad ar y taliad treth. Os yn gymwys gall hyn weithio o blaid Cwmni Cymunedol fel Partneriaeth Penllyn.

**Torri Glaswellt Caeau Chwarae & Tir Agored**
Ar ôl cysylltu gydar Cyngor daeth y wybodaeth ganlynol i law, gyda chopïau o'r lleoliadau – gweler copïau ynghlwm.

Y Grin – 685 m²
Blaenddol – 240 m²
Gwern Gwalia – 305 m²
Maes y Pandy – 265 m²
Tai'n Rhos – 588 m²
Cae Gwyn – 202 m²
**Cyfanswm 2285 m²**

TIR AGORED
Y Grin – 4270 m²
**Cyfanswm 6555 m²**
O edrych yn fwy manwl ar y gwaith cynnal ar y tiroedd yma, Mae'r pris cyfredol - £3453.40 & Taw i weld yn bris rhesymol, a byddai yn anodd ffeindio contractiwr lleol i ymgymeryd ar gwaith yma am yr un un pris neu lai. Enghraifft o hyn ydi pris am y gwaith yn Gwern Gwalia yn Nglanyrafon, mae hon yn siwrne o dros 16 milltir o'r Bala. Yn nol rheolau costau cerbyd Cyllid y Wlad mae'r gost dros £100 i drafeilio yno yn unig, Ar hyn o bryd y gost flynyddol am dorri'r tir yma ydi £30.28.
Yn ôl Cyngor Gwynedd os ydi yr holl bartïon mewn cytundeb, a bod Partnership Penllyn yn awyddus i edrych ar y posibilrwydd o gael pris gan gontractwyr lleol, a gellid ddod o hyd i ddarparwr amgen i Gyngor Gwynedd, yna nid ydi rheolau tupi yn dod i rym yn y cyswllt yma.

**Cynnal Hawliau Tramwy-**
Mae'r cytundeb gwreiddiol yn gweithio yn dda ar hyn o bryd, gyda contractiwr lleol yn ymgymeryd ar gwaith yn flynyddol. Felly nid oes angen edrych ar hyn,

fodd bynnag gall llythyr a dderbyniwyd gan y Cyngor dyddiedig Mai 2016 rhoi golwg wahanol ar bethau yn y dyfodol. Yn y llythyr yma datgelir bod mwy o doriadau yng nghyllideb y gwasanaeth hawliau tramwy. Yn sgil y toriadau mae'n anorfod y bydd y Cyngor Sir yn ail ystyried y trefniant presennol, a gall y trefniant ad-dalu gael ei diddymu'n bellach, neu hyd yn oed yn llwyr. Ers cychwyn 2016 maent yn edrych ac yn ystyried y cyfleoedd ar opsiynau ar gyfer cynnal y gwasanaeth yma drwy help swyddogion o'r Uned Cefn Gwlad a Mynediad. Derbyniodd Partneriaeth Penllyn £1354 (25%) yn llai o gyllideb yn 2016/17 nag yn 2015 ar gyfer y gwaith yma.

**Cytundeb 2009**

Mae peth dryswch o ran y cytundeb, gyda Parneriaeth Penllyn o dan yr argraff bod modd cael contractwyr lleol i ymgymeryd a holl waith yn unol ar atodiad, gan mae dyna oedd y bwriad pan ddechreuwyd y cytundeb yn 2009. Ond ei bod yn haws ar y pryd gael Cyngor Gwynedd i wneud y gwaith. Ond o drafod gyda Cyngor Gwynedd, ni fydden nhw mewn sefyllfa i gantiau hyn o dan y cytundeb presennol. Y rheswm yn bennaf ydi na fydden nhw yn caniatau i gontractiwr preifat weithio ar ased cyngor Gwynedd, gan na fyddai ganddyn nhw unrhyw reolaeth ar y gwaith.  O edrych ar y cytundeb, ni oedd unrhyw gymal yma sydd yn rhwystro Partneriaeth Penllyn rhag ymgymeryd a contractiwr lleol os mae dyna yw ei dymuniad, gan mae un cytundeb sydd yna yn rheoli'r holl waith.
Cysylltais ag adran gyfreithiol Cyngor Gwynedd, ond roedden nhw o'r un farn a'r Cyngor, gan ddweud am fod peth amser wedi mynd heibio ers cychwyn y cytundeb, ai bod wedi defnyddio'r Cyngor ar gyfer y gwaith yma am gyn hired o amser, y byddai angen cytundeb newydd os byddai Partneriaeth Penllyn yn dymuno ymgymeryd a chontractwyr lleol ar gyfer y gwaith yma. Cynllun peilot oedd hwn yn y dechrau, ac nad oedd hi yn fwriad iddo redeg am dros 5 mlynedd. Os byddai Parteriaeth Penllyn yn dymuno newid, yna byddai angen edrych ar asesiad risg, yswiriant ac Iechyd a diogelwch, a gall hyn fod yn cymeryd llawer o amser ac yn gostus i gwmni bach.
Os byddai Partneriaeth Penllyn yn penderfynu cymryd yr ased a'r cyfrifoldeb o ddarparu gwasanaeth hwn gan y Cyngor, yna byddai posibilrwydd o ddefnyddio contractwyr lleol i fanteisio ar y gwaith hwn. Fodd bynnag, byddai rheolau "tupi" yn effeithio ar y staff glanhau, a byddai oblygiadau cyfreithiol ar y bartneriaeth.

**Manteision y Cytundeb**

O edrych ar yr adroddiad yma teimlaf fod Partneriaeth Penllyn wedi cael mantais o’r cytundeb yma, gan ei bod wedi gallu darparu rhan o’r gwasanaethau gan gwmni lleol. Mae hyn yn help i’r economi leol, ac yn sicrhau bod y gwaith yn safonol. Yn ariannol maent hefyd yn gneud elw bychan yn flynyddol o’r cytundeb. Mae hyn yn bosibl oherwydd yr ad-daliad TAW y maent yn ei dderbyn.
Er hynny gallai hyn fod wedi bod yn llawer mwy llwyddiannus os byddai Partneriaeth Penllyn wedi edrych a’r roi y cytundebau i gyd i gwmniau lleol yn nol yn 2009.

Barn Partneriaeth Penllyn am hyn ydi;
“Fy marn i ydyw ei bod wedi bod o fudd i ni:

1. Mae person lleol wedi cael y gwaith ac felly yn gymorth i arian gylchdroi yn y gymuned
2. Mae'n gallu ymateb ar unwaith i geisiadau e.e.. llwybr heibio i'r Red Lion yn y Bala gan fod y gwrych yn tyfu'n fuan. Hefyd yn gallu dod ar amrantiad i dorri Llwybr y Cei yn Llanuwchllyn sy'n arwain at yr hen Gapel. Hyn yn hynod o werthfawr os oes angladd ayb gan fod y parcio mor gyfyngedig wrth y capel”
3. Y llwybrau wedi eu cynnal i safon dderbyniol.
4. Y cytundeb yn un gwerth ei gael i'r contractiwr lleol o’i gymharu â phum cytundeb llai gan y cynghorau unigol cyn 2009.”

**Rhesymeg ac Argymhellion**

Mae rhannau o’r cytundeb wedi bod yn llwyddiannus, ac nid oes angen argymhelliad i newid y trefniadau presennol ar gyfer y cytundeb “Cynnal hawliau tramwy” Er hynny mae darnau o’r cytundeb angen ei hail ystyried ai ail-fodelu.
**Cynnal a chadw a glanhau'r Toiledau**

Mae cost rhedeg y toiledau yn cynyddu yn flynyddol, ond mae ei cyflwr yn achos o bryder i Bartneriaeth Penllyn. Yn ogystal â hyn mae trefniadau glanhau bresennol yn annigonol, gyda chwynion cyson am ei glanweithdra. Ar hyn o bryd mae'r cwynion yn cael ei phasio mlaen i'r Cyngor (gan maen nhw sydd yn cyflogi'r glanhawyr) ond nid ydi'r gwasanaeth yn gwella, nag unrhyw adborth yn dod 'nôl i Bartneriaeth Penllyn am y mater. Nid yw glanweithdra a chyflwr y toiledau ar hyn o bryd yn rhoi darlun da o'r dref i'r cyhoedd, gan yn aml dyma'r lle cyntaf y bydd ymwelwyr yn ei fynychu.

Er mwyn gallu cael gwell rheolaeth o'r cytundeb dwin cynnig rhai argymhellion i'w trafod gan Bartneriaeth Penllyn a'r Cyngor;

1. Bod trefniadau mewn lle sydd yn monitro safon y gwaith yn wythnosol. Os oes problem yne dylai hyn gael ei basio mlaen i'r Cyngor yn ffurfiol, gyda dilyniant os nag oes ymateb o fewn ychydig ddyddiau. Byddai'r Cyngor wedyn yn gallu disgyblu'r gweithiwr o dan ei pholisïau cyflogaeth.
   Manteision- Dylai safon y glanhau wella.
   Anfanteision- Mwy o waith monitro i Barteriaeth Penllyn.
2. Cael yr un un rheolaeth ar y cytundeb “cynnal a chadw'r toiledau” ac sydd ar y cytundeb “Cynnal hawliau tramwy”. Byddai hyn yn rhoi rheolaeth i Bartneriaeth Penllyn gael pris gan gontractiwr yn hytrach na chyflogi wrth yr awr.
   Manteision- Mae hyn wedi gweithio yn dda o dan y cytundeb hawliau tramwy, gyda gwell darpariaeth a gwasanaeth.
   Mae cwmni preifat yn arferol yn ymgymeryd ar gwaith yn gydwybodol gan fod ei henw da yn y fantol.
   Anfanteision- Byddai rhaid i'r Cyngor gytuno i newid y cytundeb.
3. Edrych ar oriau cyflogaeth bresennol i weld os oes modd tori lawr yr oriau cyflogedig, gan fod tystiolaeth yn dangos nad ydi'r oriau yma yn cael ei gweithio bob amser.
   Manteision- Arbedion ariannol.
   Anfanteision- Rheolau cyflogaeth y Cyngor efallai yn gneud hi yn anodd newid cytundeb gweithio'r unigolyn.
4. Edrych ar y posibiliadau o Bartneriaeth Penllyn yn cymeryd cyfrifoldeb o'r glanhau am gyfnod penodol i weld os byddai'r safon glanweithdra yn well, a bod arbedion yn y costau glanhau. Byddai modd cael pris gan gontractiwr i gymeryd y cyfrifoldeb o lanhau'r toiledau yn hytrach na chyflogi wrth yr awr,

Manteision- Hyblygrwydd i'r contractiwr i'w glanhau yn ôl yr angen ac felly efallai yn rhatach pris na chyflog wrth yr awr.
Mae cwmni preifat yn debygol o wneud gwell gwaith yn amal iawn, gan fod enw da ei busnes yn y fantol.
Rhoi amser i Bartneriaeth Penllyn weld os ydi hyn yn gwella safon ac yn tori costau.
Anfanteision- o dan reolau cyflogaeth byddai rhaid i Gyngor Gwynedd diswyddo'r staff presennol, a gallent fod yn anfodlon gyda hyn oherwydd y gost.
Gall y Cyngor fynnu bod Partneriaeth Penllyn yn cyflogi'r gweithwyr presennol, yna byddai rheolau a chyfrifoldebau "tupi" yn trosglwyddo i Bartneriaeth Penllyn, ac efallai y bydden nhw yn anfodlon cymeryd y cyfrifoldeb yma.

5. Mae cyflwr y toiledau ar hyn o bryd yn eithaf gwael, Os byddai safon y toiledau yn well byddai modd cael sustem dalu ar y drws.
   Manteision- Incwm yn cael ei gynhyrchu.
   Llai o fan fandaliaeth.
   Y toiledau yn rhoi gwell adlewyrchiad o'r dref.
   Anfanteision- Byddai yn rhaid gwario ar yr adeiladau cyn y byddai modd codi tal am y cyfleusterau.
6. Yn niwedd 2016 cynhigiodd y cyngor i Bartneriaeth Penllyn gymeryd drosodd y toiledau, gan drosglwyddo'r ased i'w gofal. Os byddai'r bartneriaeth yn fodlon cymeryd y baich yma byddai modd iddynt edrych ar ail wneud yr adeilad, ac felly bod mewn sefyllfa o allu codi tal am ei defnydd.
   Manteision- Efallai cael grant ar gyfer y gwaith.
   Budd i'r dref o gael gwell cyfleusterau.
   Anfanteision- Byddai rhaid dod o hyd i ryw gymaint o'r arian adeiladu yn lleol.
   Partneriaeth Penllyn yn anfodol cymeryd y cyfrifoldeb.
7. Byddai posib cau un o'r toiledau yn y Bala, byddai hyn yn tori lawr y gost oi glanhau ai cynnal ai cadw, ond yn sicrhau bod un toiled yn dal ar ôl ar gyfer y trigolion ar ymwelwyr.
   Manteision- Llai o gostau cynnal a chadw a glanhau.
   Bod dal un adnodd o doiled cyhoeddus yn y dref.

Anfanteision- Cau'r adnodd yma yn un o’r ddau faes parcio yn y dref, yn siŵr o godi gwrthwynebiad.

8. Ar hyn o bryd, mae Cyngor Gwynedd yn talu i Bartneriaeth Penllyn, ac wedyn mae Partneriaeth Penllyn yn talu'r swm yn nol i'r Cyngor am beth o waith y cytundeb heblaw am y cytundeb “cynnal hawliau tramwy”
   Byddai posib edrych ar ddileu'r cytundeb yma.
   Manteision- Dileu cost weinyddol ychwanegol
   Anfanteision- llai o arian gan Bartneriaeth Penllyn i gael ei ail fuddsoddi yn y gymuned oherwydd yr elw bach maen nhw yn ei wneud o’r cytundeb.
9. Newid y cytundeb gan dynnu allan rhai o’r gwasanaethau sydd ddim yn gweithio megis cynnal a chadw'r toiledau.
   Manteision- Llai o gyfrifoldeb a chwynion i Bartneriaeth Penllyn
   Anfanteision- Gall y gwasanaeth ddirywio ymhellach.
10. Terfynu’r cytundeb yn gyfangwbwl gyda’r Cyngor yn derbyn cyfrifoldeb llawn am y gwasanaethau dan sylw.
    Manteision- Dim cyfrifoldeb ar Bartneriaeth Penllyn yn enwedig gan fod mwy o bwysau ariannol yn mynd i ddod yn y dyfodol gyda llai o arian ar gyfer y gwaith cynnal a chadw.
    Anfanteision- Bydd y gwaith yn debygol o ddod i ben, ac felly ni fydd y llwybrau yn cael ei clirio, na’r glaswellt yn cael ei dorri, a bydd y toiledau yn cau. Trigolion ac ymwelwyr ar ardal fydd yn colli'r adnoddau yma, ac efallai oherwydd hyn peidio dychwelyd i’r dref yn y dyfodol.
    Bydd y gwaith sydd yn cael ei gontractio o dan gytundeb hawliau tramwy yn annhebygol o gario mlaen, ac felly yn cael effaith negyddol ar y busnes lleol. Er mae elw bach sydd yn cael ei weld yn flynyddol, mae'r arian yma yn cael ei ail fuddsoddi yn yr ardal.
    Dim mewnbwn gan drigolion yr ardal i ba waith sydd angen gael ei wneud yn lleol.

**Torri glaswellt Caeau Chware a Thir agored.**

Mae'r gwaith yma yn cael ei ymgymeryd gan y Cyngor Sir yn eithaf boddhaol ac am bris rhesymol. Er hyn rwy’n argymell bod Partneriaeth Penllyn yn cael pris gan contractiwr lleol, i sicrhau bod y cytundeb presennol yn deg, ac yn werth yr arian,

Paratowyd yr adroddiad yma gan Profiad Cyf.

Rhagfyr 2016